Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Healthcare Inspectorate Wales

DRIVING IMPROVEMENT THROUGH INDEPENDENT AND OBJECTIVE REVIEW

# Arolygiad o Bractis Deintyddol Cyffredinol (lle rhoddwyd rhybudd)

## Bwrdd Iechyd Addysgu Powys,

## Practis Deintyddol Llys Einion

Dyddiad arolygu: 12 Gorffennaf 2016

Dyddiad cyhoeddi: 13 Hydref 2016

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.
Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:


**Rheolwr Cyfathrebu**
**Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru**
**Llywodraeth Cymru**
**Parc Busnes Rhyd-y-car**
**Merthyr Tudful**
**CF48 1UZ**


Neu drwy


**Ffôn:** 0300 062 8163
**E-bost**: hiw@wales.gsi.gov.uk
**Ffacs:** 0300 062 8387
**Gwefan:** www.hiw.org.uk



ISBN Digidol 978-1-4734-7242-6


© Hawlfraint y Goron 2016

## Cynnwys

1. Cyflwyniad .......... 2

2. Cyd-destun .......... 3

3. Crynodeb .......... 4

4. Canfyddiadau .......... 5

Ansawdd Profiad y Claf .......... 5

Cyflenwi Gofal Diogel ac Effeithiol .......... 8

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth .......... 13

5. Y Camau Nesaf .......... 15

6. Methodoleg .......... 16

Atodiad A .......... 18

## 1. Cyflwyniad

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw’r arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer yr holl ofal iechyd yng Nghymru.

Mae prif bwyslais AGIC ar:

- Wneud cyfraniad at y gwaith o wella diogelwch ac ansawdd gwasanaethau gofal iechyd yng Nghymru
- Gwella profiad dinasyddion o ofal iechyd yng Nghymru boed hynny fel claf, defnyddiwr gwasanaeth, gofalwr, perthynas neu gyflogai
- Atgyfnerthu llais cleifion a'r cyhoedd yn y modd y caiff gwasanaethau iechyd eu hadolygu
- Sicrhau bod gwybodaeth amserol, ddefnyddiol, hygyrch a pherthnasol am ddiogelwch ac ansawdd gofal iechyd yng Nghymru ar gael i bawb.

Cynhaliodd AGIC arolygiad o Bractis Deintyddol Llys Einion yn 60 Heol Maengwyn, Machynlleth, Powys, SY20 8DY ar 12 Gorffennaf 2016.

Gwnaeth AGIC archwilio sut roedd Practis Deintyddol Llys Einion yn bodloni’r safonau gofal a amlinellir yn y  Safonau Iechyd a Gofal (Ebrill 2015) a'r ddeddfwriaeth a'r canllawiau perthnasol eraill.

Cynhelir arolygiadau deintyddol ar ôl rhoi rhybudd, ac rydym yn ystyried ac yn adolygu’r meysydd canlynol:

- Ansawdd profiad y claf – Rydym yn siarad â chleifion (oedolion a phant), eu perthnasau, eu cynrychiolwyr a/neu eiriolwyr er mwyn sicrhau bod safbwynt y cleifion yn ganolog i'n dull arolygu.
- Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol – Rydym yn asesu i ba raddau mae gwasanaethau’n darparu gofal diogel a dibynadwy o safon uchel sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.
- Ansawdd arweinyddiaeth a rheolaeth – Rydym yn ystyried sut mae gwasanaethau yn cael eu rheoli a'u harwain a ph'un a yw'r diwylliant yn ffafrio darparu gofal diogel ac effeithiol.  Rydym hefyd yn ystyried sut y mae byrddau iechyd yn adolygu a monitro eu perfformiad eu hunain yn erbyn safonau a chanllawiau perthnasol.

Mae rhagor o fanylion am ein methodoleg ar gael yn Adran 6 yr adroddiad hwn.

## 2. Cyd-destun

Mae Practis Deintyddol Llys Einion yn darparu gwasanaethau i gleifion yn ardal Machynlleth ym Mhowys. Mae'r practis yn ffurfio rhan o'r gwasanaethau deintyddol a ddarperir yn yr ardal ddaearyddol a wasanaethir gan Fwrdd Iechyd Addysgu Powys.

Mae Practis Deintyddol Llys Einion yn bractis cymysg sy'n darparu gwasanaethau preifat a gwasanaethau'r GIG. Darperir gwasanaethau'r GIG ar gyfer plant yn unig. Darperir amrediad o wasanaethau deintyddol yn y practis, sydd hefyd yn rhan o'r rhaglen brwsio dannedd "Cynllun Gwên"

Mae tîm staff y practis yn cynnwys dau ddeintydd, un hylenydd, dwy nyrs ddeintyddol ac un derbynnydd.

## 3. Crynodeb

Ar y cyfan, gwelsom dystiolaeth bod Practis Deintyddol Llys Einion yn darparu gwasanaeth deintyddol cyfeillgar a phroffesiynol ar gyfer cleifion, ond mae nifer o systemau a ddylai fod ar waith er mwyn cefnogi'r gwaith o ddarparu gofal mewn modd diogel ac effeithiol y mae angen eu cryfhau.

Gwelsom fod y practis yn gwneud y canlynol yn dda:

- Roedd y cleifion y gwnaethom siarad â nhw'n fodlon iawn ar y gwasanaeth a oedd yn cael ei ddarparu
- Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw'n hapus yn eu swyddi, yn deall eu cyfrifoldebau ac yn mwynhau eu gwaith yn y practis
- Mae'r cyfleusterau clinigol wedi eu cyfarparu'n dda, ac maent i'w gweld yn lân ac yn daclus

Rydym yn argymell y gallai'r practis wella’r canlynol:

- Rheoli meddyginiaethau
- Yr offer a'r gweithdrefnau i'w defnyddio mewn argyfwng
- Gwelliannau i rai o'r gweithdrefnau dadheintio er mwyn cydymffurfio â Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05
- Trefniadau ar gyfer defnyddio offer pelydr-X mewn modd diogel
- Cofnodi nodiadau cleifion

Gweler Atodiad A am fanylion llawn yr argymhellion a wnaed.

# 4. Canfyddiadau

## *Ansawdd Profiad y Claf*

**Gwelsom dystiolaeth bod y practis yn ymroddedig i roi profiad cadarnhaol i'w gleifion. Roedd yr adborth a gafwyd o 20 holiadur cleifion yn gadarnhaol dros ben, a gwnaeth cleifion gyfeirio at agwedd gyfeillgar, ofalgar a phroffesiynol staff y practis.**

Mae'r practis wedi bod mewn adeilad hanesyddol ers 2007, sydd wedi'i addasu i ddarparu gwasanaethau deintyddol, ac mae pob ymdrech wedi cael ei gwneud i ddarparu cyfleuster cyfforddus, diogel a dymunol ar gyfer pob claf.

Mae man aros mawr, agored a golau ac ynddo seddi cyfforddus a man chwarae bach wedi'i neilltuo ar gyfer plant. Roedd golwg lân a thaclus ar y man chwarae.

Cyn yr arolygiad, gwahoddwyd y practis i ddosbarthu holiaduron AGIC i gleifion, er mwyn cael sylwadau ar y gwasanaethau deintyddol a oedd yn cael eu darparu. Gwnaethom dderbyn adborth eithriadol o gadarnhaol. Roedd sylwadau cleifion yn cynnwys:

> "Dw i wedi cael y practis o'r safon uchaf ym mhob ffordd. Mor ffodus ydyn ni bod practis o'r fath yn ein tre fach."
>
> *Fel claf nerfus, mae'r staff bob amser yn gwneud imi ymlacio ac yn rhoi croeso mawr imi. Bob amser yn lân ac yn daclus."*
>
> *"Mae staff bob amser yn barod eu cymwynas ac yn effeithlon. Mae'r awyrgylch yn y practis yn groesawgar. Mae'r driniaeth gywir yn cael ei rhoi a'i hesbonio bob amser."*
>
> *"Mae staff y practis yn gyfeillgar iawn ac yn barod eu cymwynas."Mae arnaf ofn deintyddion/triniaeth ddeintyddol. Dyw Glenys a'i thîm erioed wedi methu â'm helpu i oresgyn yr ofn hwn, a dw i'n mynychu'n rheolaidd ar gyfer archwiliadau a thriniaeth pan fydd angen. Fyddwn i byth yn defnyddio practis arall tra bo Llys Einion yn parhau. Diolch ichi, Glenys, a'ch tîm."*

Gofal gydag urddas

Yn ddieithriad nododd yr holl gleifion eu bod yn fodlon ar y gofal a'r driniaeth roeddent yn eu derbyn yn y practis, a'u bod yn cael croeso mawr gan y staff.

Gwelsom hefyd yr agwedd gynnes, gyfeillgar a phroffesiynol roedd y staff yn ei defnyddio wrth ymdrin â’r cleifion.

Gofal amserol

Mae'r practis yn gweithio'n galed i sicrhau bod gofal deintyddol yn cael ei ddarparu mewn modd amserol.  O’r 20 o holiaduron a gwblhawyd, dim ond dau glaf a oedd wedi profi oedi byr cyn cael eu gweld gan y deintydd ar ddiwrnod yr apwyntiad.  Dywedodd dau o bob tri o'r cleifion wrthym hefyd eu bod yn gwybod sut i gael mynediad at wasanaethau deintyddol y tu allan i oriau.  Roedd y rhif ffôn cyswllt i gleifion ei ffonio pan oedd angen triniaeth ddeintyddol ar frys arnynt y tu allan i oriau, wedi'i arddangos yn glir yn y practis.  Mae'r rhif hwn hefyd wedi'i gynnwys yn y daflen wybodaeth a oedd ar gael yn y dderbynfa.

Cadw’n iach

Dywedodd pob un o'r cleifion a gwblhaodd yr holiaduron ei fod wedi derbyn digon o wybodaeth am eu triniaeth.

Gwelsom fod cyflenwad digonol o daflenni iechyd deintyddol yn yr ystafell aros i'r cleifion eu darllen a mynd â nhw adref. Roedd posteri wedi eu harddangos ar hysbysfyrddau, a oedd hefyd yn rhoi amrediad o wybodaeth ynglŷn â sut i wella a chynnal iechyd y geg da.

Roedd y taflenni gwybodaeth a ddarperid gan y practis yn ddwyieithog.

Gofal unigol

Roedd yr holl ymatebion i holiaduron cleifion yn nodi bod cleifion yn teimlo eu bod yn derbyn digon o wybodaeth am eu triniaeth unigol, a'u bod yn hapus iawn gyda'r gwasanaeth roeddent yn ei dderbyn. Dywedodd cleifion wrthym eu bod yn cael croeso cynnes bob amser. Roedd yr holiaduron yn ei gwneud yn amlwg bod staff yn cymryd amser i wrando ar gleifion bob amser, ac yn rhoi cyngor iddynt ynglŷn ag unrhyw bryderon neu gwestiynau sydd ganddynt.

Gall pobl sy'n defnyddio cadair olwyn gael mynediad i'r practis gyda chymorth a threfnir bod ramp ar gael i'w ddefnyddio. Roedd y tai bach yn gwbl hygyrch ar gyfer pobl sy'n defnyddio cadair olwyn. Mae ystafell driniaeth i lawr y grisiau sy'n cael ei defnyddio ar gyfer unrhyw un sy'n cael trafferth defnyddio'r grisiau i'r llawr cyntaf, lle mae'r ail ystafell driniaeth.

Gwelsom bolisi cwyno'r practis a gwnaethom adolygu'r cofnod cwynion. Ar adeg yr arolygiad nid oedd y practis wedi derbyn unrhyw gwynion. Mae angen diweddaru'r polisi cwyno ar gyfer triniaeth breifat i gynnwys manylion yr awdurdod cofrestru.   Mae angen hefyd i'r practis ddatblygu polisi cwyno

ychwanegol ar gyfer cleifion y GIG y mae'n rhaid iddo fod yn unol â 'Gweithio i Wella'.

Wrth eu holi am wneud cwyn am eu gofal neu driniaeth, dim ond hanner y cleifion a gwblhaodd yr holiaduron a ddywedodd eu bod yn gwybod sut i wneud cwyn. Dylai'r practis sicrhau y gwneir y manylion ynglŷn â sut i wneud cwyn mor eglur â phosibl i gleifion, gan ei bod yn bosibl na fyddant am ofyn am y wybodaeth hon.

***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Dylai'r practis ddiweddaru ei bolisi cwyno cyfredol ar gyfer triniaeth breifat i gynnwys manylion yr awdurdod cofrestru.***

***Bydd angen i'r practis ddatblygu polisi newydd ar gyfer cleifion y GIG, yn unol â 'Gweithio i Wella'.***

## *Cyflenwi Gofal Diogel ac Effeithiol*

**Roedd yr ystafelloedd triniaeth i'w gweld yn lân ac yn daclus, ac roedd yr ystafell ddadheintio wedi'i threfnu'n dda ac yn cael ei defnyddio'n effeithiol. Fodd bynnag, rydym wedi nodi bod angen gwella nifer o'r systemau sydd ar waith i gefnogi'r gwaith o ddarparu gofal deintyddol diogel ac effeithiol.**

**Roedd angen adolygu'r system ar gyfer rheoli meddyginiaeth ac offer brys yn benodol. Roedd angen gwelliannau hefyd i'r system ar waith ar gyfer dadheintio; mae hyn i sicrhau cydymffurfiaeth â Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05.**

Gofal diogel

Mae gan y practis ystafell ddadheintio ar wahân ar y llawr cyntaf, a gwnaethom edrych yn fanwl ar eu systemau a'u prosesau ar gyfer dadheintio offer deintyddol. Roedd yr ystafell i'w gweld yn lân ac yn daclus, ac er ei bod yn fach, roedd y lle wedi'i drefnu'n ac yn cael ei ddefnyddio mewn modd effeithiol. Gwnaethom nodi nad oedd arwydd y tu allan i'r ystafell, a gall fod yn ddoeth ystyried hyn er mwyn sicrhau nad yw pobl yn cael mynediad at yr ystafell heb awdurdod. Gwnaethom nodi bod y cemegion roedd y practis yn eu defnyddio'n cael eu cadw mewn cwpwrdd nad oedd o dan glo yn yr ystafell hon, a hynny heb arwyddion rhybuddio. Dylai'r practis adolygu'r dull storio hwn i sicrhau ei fod yn unol â gofynion y Rheoliadau Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd.

***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Adolygu'r ffordd mae cemegion yn cael eu storio i sicrhau ei bod yn unol â Rheoliadau Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd.***

Roedd y practis yn cynnal profion dyddiol ar yr awtoclaf (peiriant i sterileiddio offerynnau sydd wedi cael eu glanhau ymlaen llaw) ond nid oeddent yn cofnodi'r paramedrau na chadw stribedi prawf ar gyfer gwiriad cyntaf y dydd. Rydym yn argymell eu bod yn gwneud hyn er mwyn sicrhau bod eu system yn cydymffurfio'n llawn â chanllawiau Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05. Bob tro mae'r bath uwchsonig (bath a ddefnyddir i lanhau offerynnau deintyddol cyn eu sterileiddio) yn cael ei ddefnyddio, mae nyrsys deintyddol yn cynnal prawf ffoil; fodd bynnag, nid yw profion protein yn cael eu cynnal ar yr uned. Gwnaethom argymell bod canllawiau Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05 yn cael eu hadolygu mewn perthynas â'r offer glanhau hyn, a bod amlder profion ffoil yn cael ei ddiwygio ac y cyflwynir prawf protein.

***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Yn unol â Memorandwm Technegol Iechyd Cymru01-05:***

- ***Adolygu a diwygio'r weithdrefn ar gyfer cofnodi gwiriadau awtoclaf ar ddechrau'r dydd***
- ***Adolygu amlder profion ffoil ar y bath uwchsonig a chyflwyno profion protein***

Ar ôl sterileiddio offerynnau roedd y practis yn eu pacio a'u selio, ac yn eu marcio â dyddiad y prosesu. Yn unol â Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05 dylid cofnodi'r dyddiad dod i ben ar y pecynnau hefyd.

***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Dylid marcio'r dyddiad prosesu a'r dyddiad dod i ben yn eglur ar bob pecyn o offerynnau wedi eu selio.***

Roedd contract ar waith i sicrhau bod yr holl wastraff roedd y practis yn ei gynhyrchu'n cael ei waredu'n ddiogel. Er mwyn gwella'r trefniadau hyn ymhellach, dylid rhoi biniau a weithredir â throed a biniau gwastraff glanweithiol ym mhob tŷ bach. Gwelsom y man tu allan lle'r oedd gwastraff clinigol yn cael ei storio cyn iddo gael ei gasglu, a nodi nad oedd clo ar y bin ei hun. Dylid newid y bin hwn er mwyn gwella diogelwch yn hyn o beth. Yn ogystal, nid oedd yn bosibl cloi’r man tu allan, a gallai fod yn agored i fynediad heb awdurdod. Dylid adolygu'r mater hwn hefyd.

***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Caffael bin ac arno glo ar gyfer yr holl wastraff clinigol sy'n aros i gael ei gasglu.***

***Sicrhau bod biniau a weithredir â throed a biniau gwastraff glanweithiol ym mhob tŷ bach.***

Roedd dogfennaeth i dangos bod offer radiograffig yn cael ei ddefnyddio'n ddiogel. Nid oedd y practis yn gallu dod o hyd i'r llythyr a oedd yn hysbysu'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch bod offer radiograffig yn cael ei ddefnyddio ar y safle. Gwnaethom argymell eu bod yn gwirio bod hyn wedi'i wneud ac esbonio'r prosesau mae angen iddynt eu dilyn. Gwelsom fod rheolau lleol wedi eu harddangos yn y ddwy ystafell driniaeth at ddefnydd staff, a gwelsom fod angen diweddariad bach ar y rhain i adlewyrchu aelod newydd o staff a oedd bellach yn gweithio yn y practis. Yn ogystal, mae angen i'r practis sicrhau bod ganddynt ymgynghorydd diogelu rhag ymbelydredd, a gwnaethom argymell eu bod yn ymchwilio i hyn a nodi cwmni neu unigolyn addas gyn gynted ag y bo modd.

***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Penodi ymgynghorydd diogelu rhag ymbelydredd***

Roedd y practis wedi cynnal archwiliad o ansawdd delweddau'n flaenorol, ond nid oedd wedi bod yn cynnal y rhain yn rheolaidd. Gwnaethom argymell bod yr archwiliadau hyn yn cael eu cynnal o leiaf unwaith y flwyddyn, i helpu i nodi unrhyw broblemau a all fod yn bresennol neu'n dod i'r amlwg.

Canfuom nifer o feysydd i'w gwella mewn perthynas â rheoli meddyginiaethau a gweithdrefnau brys yn y practis.

- Roedd stoc o offer a meddyginiaethau i'w defnyddio mewn argyfwng (claf yn llewygu) ond gwelsom fod dyddiad dod i ben rhai o'r rhain wedi mynd heibio.
- Yn ogystal â meddyginiaethau roedd eu dyddiad dod i ben wedi mynd heibio, gwelsom fod dyddiad dod i ben rhai o'r offer brys wedi mynd heibio hefyd.

(Gwnaethom ymdrin â'r canfyddiadau hyn trwy ein proses rhoi sicrwydd ar unwaith, a gwnaeth y practis ymateb yn brydlon trwy ddatrys y problemau roeddem wedi eu nodi'r diwrnod ar ôl ein hymweliad arolygu.)

- Gwelsom hefyd nifer o feddyginiaethau eraill roedd eu dyddiad dod i ben wedi mynd heibio (nad ydynt yn rhai brys) yn y cwpwrdd stoc.
- Roedd llyfr cofnod ar gyfer rhagnodi cyffuriau gwrthfiotig, ond roedd nifer o gofnodion ynddo yn anghywir.
- Nid oedd y broses ar gyfer rhagnodi cyffuriau gwrthfiotig yn unol â'r canllawiau diweddaraf ar gyfer hyd triniaeth yn gyson.
- Roedd meddyginiaethau'n cael eu storio mewn oergell defnydd arferol, lle'r oedd eitemau nad ydynt yn feddyginiaethau hefyd yn cael eu cadw.
- Nid oedd polisi dadebru penodol ar waith ar gyfer y practis.
- Nid oedd un deintydd wedi cwblhau hyfforddiant dadebru cardio-pwlmonaidd ers 2014. Mae’r Cyngor Deintyddol Cyffredinol yn argymell yn gryf bod gweithwyr proffesiynol deintyddol yn gwneud o leiaf dwy awr y flwyddyn o hyfforddiant ar ymdrin ag argyfyngau meddygol.

***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Cyflwyno system i sicrhau bod yr holl offer a meddyginiaethau i'w defnyddio mewn argyfwng o fewn y dyddiad dod i ben.***

***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Cyflwyno system i sicrhau nad yw meddyginiaeth yn cael ei chadw ar ôl i'w dyddiad dod i ben fynd heibio.***

***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Adolygu'r broses ar gyfer rhagnodi cyffuriau gwrthfiotig i sicrhau bod hyd y driniaeth yn unol â chanllawiau cyfredol.***

***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Dylid storio'r holl feddyginiaethau mae angen eu cadw mewn oergell i ffwrdd o eitemau nad ydynt yn feddyginiaethau, mewn oergell sy'n cael ei gwirio bob dydd i sicrhau bod y tymereddau o fewn terfynau diogel.***

***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Creu polisi dadebru penodol i'r practis sy'n amlinellu rolau a chyfrifoldebau staff mewn argyfwng.***

***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Sicrhau bod amlder cwblhau hyfforddiant ar ddadebru cardio-pwlmonaidd/argyfyngau meddygol yn unol ag argymhellion y corff proffesiynol perthnasol.***

<u>Gofal effeithiol</u>

Gwnaethom edrych ar sampl o bum cofnod cleifion ar gyfer pob deintydd a oedd yn gweithio yn y practis, sef cyfanswm o ddeg cofnod. Roedd y rhain yn ymwneud â chleifion preifat yn bennaf, ond gwnaethom hefyd edrych ar gofnodion nifer fach o gleifion y GIG (plant). Ar y cyfan gwelsom fod safon y cofnodion yn foddhaol, ond roedd angen gwella arfer cadw cofnodion un deintydd er mwyn cynnwys rhagor o fanylder yn gyffredinol. Gwelwyd bod safon y cofnodion a gedwid gan yr hylenydd yn arbennig o uchel. O ystyried yr amrywiaeth a welsom, argymhellir bod y practis yn cyflwyno system ar gyfer adolygu gan gymheiriaid, i'w helpu i ffurfio rhai safonau ar gyfer cadw cofnodion y cytunir arnynt, er mwyn sicrhau bod y gwaith o gadw cofnodion yn gyson.

***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Datblygu safonau ar gyfer yr holl waith cadw cofnodion cleifion, a chyflwyno system ar gyfer adolygu gan gymheiriaid i gynorthwyo wrth greu a chynnal y safonau hyn.***

Gwelsom fod un deintydd yn tynnu ffotograffau clinigol (gyda'r cydsyniad priodol gan gleifion a'r prosesau diogelu ar waith) o ddannedd cleifion ac yn defnyddio'r rhain i egluro problemau penodol a'r triniaethau a argymhellir. Mae hon yn enghraifft o arfer arloesol, da.

## *Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth*

**Gwelsom fod y prif ddeintydd yn darparu arweinyddiaeth glir i'r tîm staff, a llawer ohonynt yn gweithio yn y practis ers nifer o flynyddoedd. O ystyried y cynnydd ym maint y tîm yn ddiweddar, bydd angen cryfhau rhai o'r systemau llywodraethu i sicrhau y gellir cynnal safonau a chysondeb.**

Canfuom dîm staff hapus a chydlynol, a'r rhan fwyaf ohonynt wedi gweithio gyda'i gilydd ers nifer o flynyddoedd, ac yn ymroddedig i ddarparu gwasanaeth cyfeillgar, uchel ei ansawdd ar gyfer eu cleifion.

Roedd rhai aelodau newydd o staff wedi cael eu cyflogi yn y practis yn ddiweddar, ond nid oedd gweithdrefn na pholisi ar waith i arwain y broses o recriwtio staff newydd. O ganlyniad i hyn, nid oedd unrhyw wiriadau cyn cyflogaeth penodol yn cael eu cynnal ar gyfer aelodau newydd o staff. Gwnaethom argymell bod y practis yn rhoi sylw i hyn, a chysylltu'r polisi maent yn ei greu â gofynion diogelu.

***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Cyflwyno polisi sy'n amlinellu system o wiriadau cyn cyflogaeth y cytunir arni, a fydd yn sicrhau addasrwydd staff newydd i weithio yn y practis.***

Gwnaethom edrych ar amrediad o dystysgrifau hyfforddi, a nodi bod y staff wedi cael mynediad at amrywiaeth eang o hyfforddiant er mwyn cydymffurfio â'u gofynion datblygiad proffesiynol parhaus. Byddai'n gwneud y gwaith o fonitro hyfforddiant a datblygiad staff yn haws pe bai cofnod canolog o ddyddiadau hyfforddiant yn cael ei gynnal yn y practis, a gallant ystyried creu un o'r rhain.

Gwelsom dystysgrifau hyfforddiant ac yswiriant indemniad ar gyfer y prif ddeintydd, ond ar adeg ein harolygiad nid oedd y rhain ar gael ar gyfer y deintydd cysylltiol. Yn syth ar ôl ein hymweliad gwnaethom gadarnhau bod yr holl ddogfennaeth gofrestru ac yswiriant ar waith yn ôl y gofynion a'r disgwyl.

Nid oedd y gwiriad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar gyfer y prif ddeintydd ar gael i'w weld, er inni dderbyn sicrwydd ar lafar bod un ar gael. Rhaid i'r holl ddeintyddion sydd wedi cofrestru gydag AGIC feddu ar wiriad dilys gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd wedi'i dyddio o fewn y tair blynedd diwethaf. Gwnaethom esbonio'r mater hwn i'r deintydd a gytunodd i sicrhau y cydymffurfir â'r gofyniad hwn.

***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Anfon manylion y dystysgrif gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd nad oedd ar gael ar ddiwrnod yr arolygiad at AGIC.***

Gwelsom dystiolaeth o gyfarfodydd staff rheolaidd a oedd wedi cael eu cofnodi, ac roedd cynnwys y rhain yn edrych yn ddefnyddiol ac yn briodol i'r tîm staff. Nid oedd system ar gyfer arfarnu staff a gwnaethom argymell bod un yn cael ei sefydlu; yn enwedig oherwydd bod maint y tîm staff wedi cynyddu'n ddiweddar gydag aelodau newydd o staff yn cael eu cyflogi.

***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Cyflwyno system ar gyfer arfarnu aelodau staff yn rheolaidd, gyda'r nod o hyrwyddo a chynnal safonau uchel a datblygu aelodau o staff.***

Gwnaethom nodi bod yr hylenydd deintyddol yn gweithio ar ei ben ei hun a heb gymorth gan nyrs ddeintyddol. Gwnaethom argymell bod y mater hwn yn cael ei adolygu i sicrhau bod gweithio unigol yn cael ei leihau a bod yr hylenydd yn derbyn cymorth gwell wrth gynnal gofal deintyddol.

***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Adolygu'r trefniad presennol lle mae'r hylenydd deintyddol yn gweithio ar ei ben ei hun.***

## 5. Y Camau Nesaf

Mae'r arolygiad hwn wedi arwain at yr angen i’r practis deintyddol gwblhau cynllun gwella (Atodiad A) i fynd i’r afael â chanfyddiadau allweddol yr arolygiad.

Dylai'r cynllun gwella nodi'n glir pryd a sut y bydd Practis Deintyddol Llys Einion yn mynd i’r afael â’r canfyddiadau a nodwyd yn y practis, gan gynnwys amserlenni.

Mae angen i’r cam(au) a gymerir gan y practis mewn ymateb i’r problemau a nodwyd yn y cynllun gwella fod yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi’u hamseru. Yn gyffredinol, dylai’r cynllun fod yn ddigon manwl i roi sicrwydd digonol i AGIC ynglŷn â’r materion a drafodir ynddo.


Pan fydd camau yng nghynllun gwella’r practis yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, dylai’r practis roi’r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC, i gadarnhau pan fydd y rhain wedi cael sylw.

Bydd y cynllun gwella, unwaith y cytunir arno, yn cael ei gyhoeddi ar wefan AGIC, ac fe gaiff ei werthuso fel rhan o’r broses arolygu deintyddol barhaus.

## 6. Methodoleg

Mae'r Safonau Iechyd a Gofal newydd (gweler Ffigur 1) wrth graidd dull AGIC o gynnal arolygiadau yn y GIG yng Nghymru. Bwriedir i'r saith thema weithio gyda'i gilydd. Gyda'i gilydd maent yn disgrifio sut y mae gwasanaeth yn darparu gofal o ansawdd uchel, diogel a dibynadwy sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Mae'r safonau'n allweddol i'r dyfarniadau yr ydym yn eu gwneud am ansawdd, diogelwch ac effeithiolrwydd y gwasanaethau a ddarperir i gleifion.

**Ffigur 1: Safonau Iechyd a Gofal**




Bydd unrhyw ddeintydd sy'n gweithio yn y practis sydd wedi'i gofrestru ag AGIC i ddarparu deintyddiaeth breifat hefyd yn ddarostyngedig i ddarpariaethau Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008[1] a Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) (Diwygio) 2011.[2] Lle bo hynny'n briodol, rydym yn ystyried sut mae'r practis yn bodloni'r rheoliadau hyn, yn ogystal â Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio 1999, Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol)

---

[1] http://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2008/1976/contents/made

[2] http://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2011/2686/contents/made

2000, ac unrhyw safonau a chanllawiau proffesiynol perthnasol eraill, megis Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar gyfer y Tîm Deintyddol.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom adolygu dogfennau a gwybodaeth o nifer o ffynonellau, gan gynnwys:

- Gwybodaeth a gedwir gan AGIC
- Cyfweliadau gyda staff gan gynnwys deintyddion a staff gweinyddol
- Trafodaethau â staff nyrsio
- Archwilio sampl o gofnodion deintyddol cleifion
- Archwilio polisïau a gweithdrefnau'r practis
- Archwilio offer a'r safle
- Gwybodaeth yn nhaflen wybodaeth y practis ac ar ei wefan (pan fo hynny'n berthnasol)
- Holiaduron cleifion AGIC.

Rydym yn cynnig trosolwg o'n prif ganfyddiadau i gynrychiolwyr y practis deintyddol ar ddiwedd pob arolygiad er mwyn sicrhau eu bod yn derbyn adborth priodol.

Tynnir sylw'r practis deintyddol a'r bwrdd iechyd lleol at unrhyw bryderon brys sy'n codi o arolygiadau deintyddol trwy lythyr gweithredu ar unwaith. Bydd unrhyw ganfyddiadau o'r fath yn cael eu nodi, ynghyd ag unrhyw argymhellion eraill a wneir, yn Atodiad A yr adroddiad arolygu.

Mae arolygiadau deintyddol yn cynnig cipolwg o'r modd y gweithredwyd safonau yn y practis ar ddiwrnod yr arolygiad.

*Atodiad A*

## Practis Deintyddol Cyffredinol: Cynllun Gwella

## Practis: Practis Deintyddol Llys Einion

## Dyddiad yr arolygiad: 12 Gorffennaf 2016

| Rhif y dudalen | Yr hyn y mae angen ei wella | Rheoliad / Safon | Camau gweithredu'r practis | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|
| **Ansawdd Profiad y Claf** | | | | | |
| 7. | Dylai'r practis ddiweddaru ei bolisi cwyno cyfredol ar gyfer triniaeth breifat i gynnwys manylion yr awdurdod cofrestru.<br><br>Bydd angen i'r practis ddatblygu polisi newydd ar gyfer cleifion y GIG, yn unol â 'Gweithio i Wella'. | Rheoliad 15 (4) (a) | Mae'r polisi'n cael ei ddiweddaru ar hyn o bryd. | A Pryce | 1/12 |
| **Cyflenwi Gofal Diogel ac Effeithiol** | | | | | |
| 8. | Adolygu'r ffordd mae cemegion yn cael eu storio i sicrhau ei bod yn unol â Rheoliadau Rheoli | Rheoliad 14 (1) (d) | Mae cloeon yn cael eu gosod ar y cypyrddau ac mae arwydd yn cael ei osod. | G Davies | 2/12 |

| Rhif y dudalen | Yr hyn y mae angen ei wella | Rheoliad / Safon | Camau gweithredu'r practis | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|
| | Sylweddau Peryglus i Iechyd. | | | | |
| 9. | Yn unol â Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05:<br>• Adolygu a diwygio'r weithdrefn ar gyfer cofnodi gwiriadau awtoclaf ar ddechrau'r dydd<br>• Adolygu amlder profion ffoil ar y bath uwchsonig a chyflwyno profion protein | Rheoliad 14 (6) | Ymchwilio i lyfr cofnodion gwahanol ar gyfer yr awtoclaf.<br>Ymgynghori â gwneuthurwr y bath uwchsonig er mwyn cyflwyno prawf protein priodol. | I Evans | 1/12 |
| 9. | Dylid marcio'r dyddiad prosesu a'r dyddiad dod i ben yn eglur ar bob pecyn o offerynnau wedi eu selio. | Rheoliad 14 (1) (b) | Prynu ail stamp dyddiad fel y gellir rhoi'r ddau ddyddiad ar offer glân. | I Evans | Cwblhawyd |
| 9. | Caffael bin â chlo arno ar gyfer yr holl wastraff clinigol sy'n aros i gael ei gasglu.<br>Sicrhau bod biniau a weithredir â throed a biniau gwastraff glanweithiol ym mhob tŷ bach. | Rheoliad 14 (6) | Cwblhawyd | G Davies | 1/12 |
| 9. | Penodi ymgynghorydd diogelu rhag ymbelydredd. | | I'w benodi cyn gynted â phosibl. | G Davies | 1/12 |
| 10. | Cyflwyno system i sicrhau bod yr holl offer a meddyginiaethau i'w | Rheoliad 14 (1) (d) | Cael ail lyfr mewn cwpwrdd storio.<br>Y ddau lyfr i gael eu llofnodi a'u | G Davies | Cwblhawyd |

| Rhif y dudalen | Yr hyn y mae angen ei wella | Rheoliad / Safon | Camau gweithredu'r practis | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|
| | defnyddio mewn argyfwng o fewn y dyddiad dod i ben. | | cydlofnodi gan ddeintydd. | | |
| 10. | Cyflwyno system i sicrhau nad yw meddyginiaeth yn cael ei chadw ar ôl i'w dyddiad dod i ben fynd heibio. | Rheoliad 14 (1) (d) | Ail lyfr (wedi ei lofnodi a'i gydlofnodi gan y deintyddion a nyrs). | G Davies | Cwblhawyd |
| 11. | Adolygu'r broses ar gyfer rhagnodi cyffuriau gwrthfiotig i sicrhau bod hyd y driniaeth yn unol â chanllawiau cyfredol. | Rheoliad 14 (1) (b) | Archwiliad gwrthfiotig wedi ei gynnal trwy Ddeoniaeth Cymru ac rydym yn dilyn canllawiau NICE ym mhob achos yn awr. | G Davies | Cwblhawyd |
| 11. | Dylid storio'r holl feddyginiaethau mae angen eu cadw mewn oergell i ffwrdd o eitemau nad ydynt yn feddyginiaethau, mewn oergell sy'n cael ei gwirio bob dydd i sicrhau bod y tymereddau o fewn terfynau diogel. | Rheoliad 14 (1) (b) | Wedi eu tynnu o'r oergell ac yn cael eu cadw yn ôl cyfarwyddyd y gwneuthurwr. | I Evans | Cwblhawyd |
| 11. | Creu polisi dadebru penodol i'r practis sy'n amlinellu rolau a chyfrifoldebau staff mewn argyfwng. | Rheoliad 14 (2) | I gael ei ymchwilio ar unwaith.<br>Wedi cysylltu â Chymdeithas Ddeintyddol Prydain am gyngor a thempled. | A Pryce | 1/12 |
| 11. | Sicrhau bod amlder cwblhau hyfforddiant ar ddadebru cardio-pwlmonaidd/argyfyngau meddygol yn unol ag argymhellion y corff | Rheoliad 14 (1) (b) | Mae'r practis yn cynnal hyfforddiant dadebru cardio-pwlmonaidd/argyfwng meddygol mewnol bob blwyddyn – holl | | Cynhelir bob mis Mawrth. |

| Rhif y dudalen | Yr hyn y mae angen ei wella | Rheoliad / Safon | Camau gweithredu'r practis | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|
| | proffesiynol perthnasol. | | aelodau'r practis i fynychu, yn unol â safon y Cyngor Deintyddol Cyffredinol. | | |
| 11. | Datblygu safonau ar gyfer yr holl waith cadw cofnodion cleifion, a chyflwyno system ar gyfer adolygu gan gymheiriaid i gynorthwyo yn y gwaith o greu a chynnal y safonau hyn. | Rheoliad 14 (2) | Ymchwilio i adolygu gan gymheiriaid ac archwiliadau practis fel bod pob unigolyn yn cydymffurfio â safonau'r practis. | G Davies | 2/12 |
| **Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth** | | | | | |
| 12. | Cyflwyno polisi sy'n amlinellu system o wiriadau cyn cyflogaeth y cytunir arni, a fydd yn sicrhau addasrwydd staff newydd i weithio yn y practis. | Rheoliad 14 (2) | Wedi ymchwilio i'r mater hwn gyda chymorth Cymdeithas Ddeintyddol Prydain ac yn dilyn ei thempled. | G Davies | 1/12 |
| 12 | Anfon manylion y dystysgrif gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd nad oedd ar gael ar ddiwrnod yr arolygiad at AGIC. | Rheoliad 13 (3) (c), Atodlen 2 | Wedi cysylltu â'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd a gwneud cais a chaiff ei hanfon pan fydd wedi cyrraedd. | G Davies | 1/12 |
| 13 | Cyflwyno system ar gyfer arfarnu aelodau staff yn rheolaidd, gyda'r nod o hyrwyddo a chynnal safonau uchel a datblygu aelodau o staff. | Rheoliad 14 (2) | Ymchwilio i'r mater hwn gan ddilyn canllawiau a thempledi Cymdeithas Ddeintyddol Prydain. | G Davies<br>A Pryce | 2/12 |

| Rhif y dudalen | Yr hyn y mae angen ei wella | Rheoliad / Safon | Camau gweithredu’r practis | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|
| 13 | Adolygu'r trefniad presennol lle mae'r hylenydd deintyddol yn gweithio ar ei ben ei hun. | Rheoliad 14 (1) (d) | Adolygiad | G Davies<br>J King | 2/12 |

**Cynrychiolydd y practis:**

**Enw (llythrennau bras):** **Glenys Davies**

**Teitl:** **...............................**

**Dyddiad:** **2/8/16**